# Meddygfa Rhydlafar
# CYLCHLYTHYR Gaeaf 2025-2026

Wrth i ni ddechrau 2026, rydym wrth ein bodd yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf o'ch meddygfa newydd. O gerrig milltir adeiladu i gynlluniau ar gyfer y dyfodol, bydd y cylchlythyr hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi bob cam o'r ffordd. Byddem wrth ein bodd yn clywed eich barn, adborth a gobeithion ar gyfer y cyfleuster newydd wrth i ni agosáu at ei agoriad swyddogol.

## Mae angen eich llais arnom

Rhannwch eich adborth, syniadau neu gwestiynau gyda ni fel y gallwn wneud Meddygfa Rhydlafar y gorau y gall fod. Mae eich adborth yn helpu i lunio'r gwasanaethau a ddarparwn.

Bydd blwch adborth cyfrinachol ar gael yn fuan ym Meddygfa Pentyrch, ond gallwch hefyd anfon e-bost atom yn: **cav.engagement.cav@wales.nhs.uk.**

## Datblygu'r wefan

Rydym yn datblygu hyb ar-lein newydd ar gyfer y prosiect hwn, a fydd ar waith erbyn diwedd mis Mawrth.

Bydd y tudalennau gwe hyn yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gwaith adeiladu, y Cynllun Trafnidiaeth, cwestiynau cyffredin a phopeth sydd angen i chi ei wybod am Feddygfa Rhydlafar.

## Cynnydd adeiladu

Rydym yn falch o rannu bod y gwaith o adeiladu'r Feddygfa newydd ar Rhydlafar Drive yn mynd rhagddi'n dda. Mae'r llawr trawst a bloc wedi'i gwblhau, ac mae waliau strwythurol a grisiau concrit yn cael eu gosod, ynghyd â thrawstiau to.

Mae nifer o heriau wedi bod ac mae'r Contractwr yn gweithio'n galed i'w goresgyn, un ohonynt yw'r tywydd garw yn ddiweddar.

Rydym yn ymwybodol o bryderon ynghylch mwd ar y palmentydd o amgylch y safle adeiladu a hoffem ymddiheuro am unrhyw anghyfleustra y mae hyn wedi'i achosi.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda chontractwyr i roi mesurau effeithiol ar waith i fynd i'r afael â hyn cyn gynted â phosibl. Os oes gennych unrhyw bryderon, cysylltwch â ni yn **cav.engagement.cav@wales.nhs.uk**, fel y gallwn ni fynd i'r afael â hyn.

Bydd dyddiad cwblhau terfynol y cynllun yn cael ei roi yn y cylchlythyr hwn.

## Cynllun Trafnidiaeth

Rydym yn deall bod teithio yn bryder i rai cleifion na allant gyrraedd y feddygfa newydd. Bydd Cynllun Trafnidiaeth yn cael ei lansio ochr yn ochr â'r feddygfa

ym 2026, gydag adolygiad wedi'i drefnu ar gyfer 2027.

Fel rhan o'r cynllun, cynigir tacsi i chi os:
• Bydd angen apwyntiad wyneb yn wyneb arnoch am resymau clinigol.
• Ni allwch deithio'n annibynnol.

Bydd y cludiant hwn yn seiliedig ar angen clinigol, nid hwylustod. Bydd penderfyniadau ynghylch apwyntiadau wyneb yn wyneb yn cael eu gwneud gan glinigwr fesul achos fel gyda phob claf.

Bydd taflen wybodaeth i gleifion hefyd ar gael i esbonio sut y bydd y cynllun cludiant yn gweithio. Bydd hyn yn cael ei gwblhau wrth i ni brofi'r cynllun i wneud yn siŵr ei fod yn addas at y diben.

## Beth i'w ddisgwyl gan eich cylchlythyr nesaf

- Manylion pellach ynglŷn â'r Cynllun Trafnidiaeth a'r daflen wybodaeth i gleifion
- Cynnydd adeiladu a diweddariadau
- Cwestiynau cyffredin ac atebion
- Mwy o wybodaeth am y dudalen we
- Bydd y cylchlythyr nesaf yn cael ei rannu yng Ngwanwyn 2026.

## Newyddion arall

**Asesiad o Anghenion Fferyllol (PNA)**

Mae PNA yn werthusiad o'r gwasanaethau fferyllol sydd eu hangen ar boblogaeth leol sy'n nodi bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir ac yn llywio cynlluniau gofal iechyd.

Byddwn yn ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd yn y gymuned yn ystod Mai - Mehefin 2026 a bydd y PNA nesaf ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2026.

Bydd unrhyw newidiadau sylweddol newydd i'r boblogaeth a'u mynediad at wasanaethau fferyllol, sy'n dod i'r amlwg ar ôl cyhoeddi'r PNA yn cael eu hadolygu yn ystod ei oes pum mlynedd (2026-2031).

Bydd unrhyw wybodaeth a diweddariadau PNA perthnasol yn cael eu dosbarthu drwy'r cylchlythyr hwn.

Cysylltwch os bydd gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau am y PNA: **cav.communitypharmacy@wales.nhs.uk.**



***Os oes angen y cylchlythyr hwn arnoch mewn fformat arall, fel print bras neu Braille, cysylltwch â'r feddygfa.***